Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 10









Sefydlwyd yn 2013



Mae gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru le canolog yn cefnogi'r ffordd y gellir dylunio, cyflwyno a gweithredu polisïau Llywodraeth Cymru. Mae'r Ganolfan yn cyfrannu tri pheth at lunio polisïau yng Nghymru.

Yn gyntaf, mae'n dod ag ymdeimlad o her. Fel Gweinidog, mae angen ichi gasglu cymaint o dystiolaeth a ffynonellau cyngor amgen ag sy'n bosibl, ac mae gan y Ganolfan yr awdurdod i allu cynnig yr ymdeimlad hwnnw o her pan fo angen.

Yn ail, mae'r Ganolfan yn dod â chyngor sydd wedi'i wreiddio'n wirioneddol mewn tystiolaeth, dealltwriaeth o ehangder y dystiolaeth ac, yn bwysicaf oll, mae'n dod â'r gallu i ddadansoddi a chyflwyno'r dystiolaeth a helpu i ddeall yr hyn y mae'n ei ddweud wrthym.

Yn drydydd, mae'r Ganolfan yn deall y byd gwleidyddol y mae llywodraeth yn rhan ohono. Ni fydd y cyngor gorau yn y byd yn mynd i unman os nad yw'n deall y ffordd y mae'n rhaid i lywodraeth weithio i gyflawni polisi effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

**Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS**
**Prif Weinidog Cymru**



Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn darparu cyfraniadau amhrisiadwy wrth gefnogi gwaith sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a llunwyr polisi llywodraeth leol ledled Cymru. Mae ymrwymiad y WCPP i ddarparu tystiolaeth arbenigol wedi bod yn allweddol wrth lunio polisïau effeithiol sydd o fudd uniongyrchol i'n cymunedau.

Mewn oes lle mae gwneud penderfyniadau gwybodus yn hollbwysig, rydym yn cydnabod pwysigrwydd dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae ymroddiad y WCPP i ymchwil trwyadl a dadansoddiadau craff wedi gwella'n sylweddol ein gallu i lunio polisïau sy'n mynd i'r afael â'r anghenion a'r heriau unigryw a wynebir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Y Cyng Andrew Morgan OBE**
**Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

**Wales Centre for Public Policy**
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, sbarc|spark, Heol Maindy, Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk
info@wcpp.org.uk
029 2087 5345
@WCfPP
/company/wcfpp

Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Lluniau: Aled Llywelyn WWF Cymru, Tim Rooney, Green Squirrel Railway Gardens project, Community Gateway.

# Cynnwys

















Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 10 — 04

Eich blaenoriaethau chi yw ein blaenoriaethau ni — 06

**Blaenoriaethau allweddol:**

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau — 08
- Yr Amgylchedd a Sero Net — 11
- Llesiant Cymunedol — 14


## Cysylltiadau allweddol

**James Downe**
**Cyfarwyddwr Dros Dro**
james.downe@wcpp.org.uk
029 2087 5298

**Jude Langdon**
**Rheolwr y Canolfan**
jude.langdon@wcpp.org.uk
029 2087 5345

**Liz Clutton**
**Swyddog Cyfathrebu**
liz.clutton@wcpp.org.uk
07736 056669

**Ash Walker**
**Swyddog Gweinyddol**
asha.walker@wcpp.org.uk
029 2087 5345

**Dan Bristow**
**Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer**
dan.bristow@wcpp.org.uk

**Helen Tilley**
**Arweinydd Amgylchydd a Sero Net**
helen.tilley@wcpp.org.uk

**Amanda Hill-Dixon**
**Arweinydd Anghydraddoldebau**
amanda.hill-dixon@wcpp.org.uk

**Hannah Durrant**
**Arweinydd Llesiant Cymunedol**
hannah.durrant@wcpp.org.uk

# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 10

**Yr Athro Steve Martin**
**Cyfarwyddwr CPCC**
steve.martin@
wcpp.org.uk



## Mae gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus rôl unigryw.

Yn y deng mlynedd ddiwethaf, rydym wedi datblygu perthnasoedd dibynadwy gydag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ac uwch lunwyr polisi yng Nghymru ac wedi darparu tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol, awdurdodol i'w helpu i nodi ymatebion polisi effeithiol a datrysiadau ymarferol i'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Rydym yn gweithio'n galed i ddarparu tystiolaeth annibynnol heb ofn neu ffafr. Ac am ein bod yn deall y cyd-destun Cymreig, gallwn helpu llunwyr polisi i benderfynu beth fydd yn gweithio yma.

> **Mae gan CPPC y cadernid academaidd, yr annibyniaeth ond hefyd yr hunaniaeth Gymreig sydd wir yn ychwanegu at yr hyder o weithio gyda'r Ganolfan. Mae'n bwysig iawn cael tystiolaeth sy'n deall y cyd-destun Cymreig.**
>
> Uwch Swyddog Llywodraeth Cymru

Mae'r Ganolfan wedi tyfu o fod yn dîm bychan tri pherson yn 2013 i fwy na phump ar hugain aelod o staff ymroddedig sy'n cyfrannu profiad o gefndiroedd amrywiol sy'n cynnwys academia, llywodraeth genedlaethol a lleol, cyrff cyhoeddus, melinau trafod, ymgyngoriaethau a'r sector gwirfoddol.

Rydym hefyd wedi sefydlu rhwydwaith byd-eang o ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw ac rydym wedi cwblhau mwy na 200 o brosiectau o brosiectau sydd wedi hysbysu polisïau o ddigartrefedd i ofal plant, cydraddoldeb hiliol i bolisi mudo, mynd i'r afael â thlodi gwledig i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal, brwydro yn erbyn unigrwydd, cynyddu cyrhaeddiad addysgol, adferiad Covid, cynllunio'r gweithlu, gwella ansawdd aer, datgarboneiddio'r economi, cynllunio trafnidiaeth, gwasanaethau bysiau, a'r sgiliau sydd eu hangen ar Gymru ar gyfer swyddi'r dyfodol.

Mae'r cyhoeddiadau yma ac ein holl waith ar gael ar ein wefan.



Mae'r dull arobryn hwn o gasglu tystiolaeth yr ydym wedi'i arloesi yng Nghymru wedi denu diddordeb a chydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol. Gan dynnu ar ein profiad, rydym wedi rhannu'r hyn a ddysgwn am lunio a gweithredu polisïau ar sail tystiolaeth mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid, cyflwyniadau cynhadledd, blogiau a phapurau gwyntyllu. Ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau a rhwydweithiau eraill – yng Nghymru a ledled y DU.

Fel aelodau o'r rhwydwaith 'What Works Network', rydym yn darparu cysylltiad cryf rhwng y Canolfannau 'What Works' a llunwyr polisi yng Nghymru. Rydym wedi helpu i sefydlu'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol, rydym yn gyfranogwyr gweithgar yn y Rhwydwaith Ymgysylltu â Pholisi Prifysgolion a'n partneriaid yn y fenter PolicyWise, sy'n hyrwyddo dysgu rhwng llunwyr polisi ym mhedair llywodraeth y DU ac Iwerddon.

Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb y weledigaeth a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan ein noddwyr – y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd – a diolchwn i'r tri am eu cefnogaeth dros y deng mlynedd ddiwethaf.

Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i'r cannoedd o lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi dewis gweithio gyda ni – am yr ymddiriedaeth maent wedi'i harddangos ynom a'u parodrwydd i archwilio'r dystiolaeth i nodi dulliau gweithredu newydd, ac weithiau unigryw i Gymru, i rai heriau hirsefydlog a chymhleth.

Mae ansawdd ein gwaith yn ddibynnol ar y wybodaeth a gyflwynir gan y rhwydwaith helaeth o ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi sydd wedi gweithio gyda ni, yn ogystal â rhagoriaeth a gwaith caled staff y Ganolfan ei hun wrth gwrs (blaenorol a phresennol).



Rydym hefyd yn cydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth ein Grŵp Cynghori, sydd wedi chwarae rhan bwysig yn llwyddiant y Ganolfan.

Wrth i'r Ganolfan droi'n ddeg oed, rydym yn dathlu cyfraniadau a chyflawniadau'r degawd diwethaf ac edrychwn ymlaen at chwarae ein rhan yn helpu llywodraeth genedlaethol a lleol i lywio'r heriau niferus o'n blaenau. Yn y 18 mis nesaf byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar dair blaenoriaeth – yr amgylchedd a sero net, anghydraddoldebau, a llesiant cymunedol – a gwyddom fod y rhain yn bwysig i'n noddwyr ac yn hanfodol i lesiant cenedlaethau presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Mae'r llyfryn byr hwn yn amlinellu sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn cynnig rhai enghreifftiau o sut mae'r dystiolaeth a grëwyd gennym wedi'i defnyddio a sut mae'n cael ei defnyddio yn awr.

**Rydym yn awyddus i weithio gyda chi i harneisio tystiolaeth annibynnol mewn ffyrdd a allai fod yn fuddiol i'r cymunedau yr ydych yn eu gwasanaethu.**

**Felly, yn ogystal ag ymuno â ni i ddathlu ein degfed pen-blwydd, cofiwch gadw mewn cysylltiad â ni a rhoi gwybod i ni sut y gallwn eich cefnogi chi a'ch cydweithwyr orau nawr ac yn y dyfodol.**

**info@wcpp.org.uk | www.wcpp.org.uk**

# Eich blaenoriaethau chi yw ein blaenoriaethau ni

**Dan Bristow**
**Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer CPCC**
dan.bristow@wcpp.org.uk



**Mae ein dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan alw yn dechrau drwy weithio gyda llunwyr polisi lleol a chenedlaethol ac arweinwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddeall yr heriau rydych yn eu hwynebu.**

Mae hyn yn golygu bod ein gwaith yn adlewyrchu eich anghenion chi a gallwn ddarparu tystiolaeth ar adeg ac mewn fformat a fydd yn fwyaf defnyddiol i chi.

Er mwyn penderfynu lle i ganolbwyntio ein hymdrechion, rydym wedi dadansoddi'r asesiadau a'r cynlluniau llesiant cyfredol a gynhyrchwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), wedi cynnal sgyrsiau gydag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, ac wedi cynnal arolwg o gydlynwyr BGC.

**Amlygodd y broses hon dair blaenoriaeth glir lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf ac felly, dyma fydd ein prif ffocws ar gyfer y 18 mis nesaf o leiaf.**

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

Mae'r argyfwng costau byw ym mlaen meddyliau pawb, ac, fel y pandemig Covid-19, mae'n taro galetaf ar yr aelwydydd a'r cymunedau hynny lle mae tlodi ac anghydraddoldebau wedi bod yn broblem ers tro.

## Yr amgylchedd a sero net

Nid yw argyfyngau'r amgylchedd a hinsawdd yn rhagolygon ar gyfer y dyfodol; rydym yn gweld eu heffeithiau yn awr. Mae mynd i'r afael â hwy yn her strategol a gweithredol enfawr sy'n cynnwys risg wirioneddol y bydd y costau'n disgyn yn anghymesur ar gymunedau sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd fwyaf.

## Llesiant cymunedol

Mae cyfranogiad ac ymgysylltiad y gymuned yn fuddiol i'r rhai sy'n cymryd rhan, a all gael effaith drawsnewidiol ar y rhai sy'n teimlo'n fregus ac wedi'u hymyleiddio. Ond mae eu heffaith yn ymestyn ymhell y tu hwnt i unigolion a bydd gweithio gyda chymunedau gweithgar ac ymgysylltiol yn hollbwysig ar gyfer mynd i'r afael â llawer o'r materion mwyaf heriol sy'n wynebu Cymru ar hyn o bryd.

Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar helpu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i'r heriau hyn drwy eu galluogi i ddeall y materion ac adnabod beth sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â hwy.





## Sut rydym yn gweithio

**Mae cydweithio yn ganolog i'n gwaith.**

Rydym yn **gweithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddylunio a chyflenwi prosiectau** sy'n gallu helpu i sicrhau bod penderfyniadau am bolisïau, strategaethau a chyflenwi gwasanaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth ryngwladol orau sydd ar gael ac sy'n cael ei defnyddio mewn ffyrdd wedi'u teilwra i anghenion, cyfyngiadau a chyfleoedd y cyd-destunau penodol rydych yn gweithio ynddynt.

Felly gallwn gefnogi penderfyniadau wedi'u hysbysu gan dystiolaeth, rydym yn gweithio gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisïau a siapio arfer – yn genedlaethol ac yn lleol.

Gwyddom mai anaml y mae tystiolaeth yn siarad drosti'i hun. Felly nid yw crynhoi'r hyn y mae'r ymchwil yn ei ddweud yn ddigon. Gwyddom fod ein gwaith yn fwy effeithiol pan fyddwn yn ystyried yr ystod lawn o safbwyntiau. Dyna pam rydym yn creu mannau diogel i lunwyr polisi ac arbenigwyr gymryd rhan **mewn deialog am y materion yng Nghymru a'r dystiolaeth ryngwladol** ac mae'r broses hon yn ein galluogi i gynhyrchu allbynnau sy'n cyfuno ymchwil o'r radd flaenaf â gwybodaeth leol.

## Sut gallwn helpu

Mae ein gwaith gyda gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae rhai o'r ffyrdd y gallwn helpu yn cynnwys:

- Rydym yn arbenigo mewn helpu arweinwyr yn y sector cyhoeddus i gael **mynediad at dystiolaeth ddibynadwy, berthnasol ac amserol.**
- Mae ein tîm yn cynnal **adolygiadau cyflym o dystiolaeth** ac yn darparu **briffiau cryno ar bolisïau** mewn fformatau hygyrch a ddyluniwyd ar gyfer llunwyr polisi prysur ac arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn nodi ac yn **gweithio gydag ymchwilwyr blaenllaw** ac arbenigwyr polisi yn y DU ac yn rhyngwladol ac mae gennym gyllideb i dalu am eu gwaith gyda ni.
- Rydym yn **cynnal sgyrsiau** rhwng llunwyr polisi, ymarferwyr, ymchwilwyr a'r rhai â phrofiad bywyd i nodi ffyrdd profedig i fynd i'r afael â'r heriau polisi dybryd sy'n wynebu Cymru.
- Fel aelodau o'r **Rhwydwaith 'What Works'** a'r **Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol**, gallwn eich cysylltu â ffynonellau tystiolaeth a chyngor yn y rhwydweithiau hyn.

# Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

**Amanda Hill-Dixon**
**Uwch-gymrawd Ymchwil**
amanda.hill-dixon@
wcpp.org.uk



## Yr her

Er gwaethaf ymdrechion parhaus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar lefel leol a chenedlaethol, **mae Cymru yn parhau i fod yn un o rannau tlotaf y DU**. Yr ydym wedi cael y gyfradd uchaf o dlodi o holl wledydd y DU am ddegawd a mwy: mae tua 31% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol, ac nid oes gan 45% o aelwydydd byth ddigon o arian ar gyfer unrhyw beth ac eithrio'r hanfodion.

**Amlygodd y pandemig coronafeirws yr anghydraddoldebau presennol,** ac mae'r **argyfwng costau byw yn gwthio mwy o aelwydydd i mewn i dlodi a chyni.**

Mae tlodi'n **croestorri ag anghydraddoldebau strwythurol eraill** mewn ffyrdd sy'n cynyddu'r anfanteision a wynebir gan grwpiau penodol, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl LHDTC+, ymhlith eraill. Ac mae effeithiau andwyol anghydraddoldebau yn effeithio ar **ddimensiynau lluosog o fywydau pobl, gan gynnwys iechyd a lles, addysg a chyflogaeth.**

Mae tystiolaeth yn dangos nad yw anghydraddoldebau ond yn niweidiol i'r unigolion hynny sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol neu'n ariannol, ond hefyd i gymdeithas a'r economi yn gyffredinol, a bod ymdrechion i **fynd i'r afael â heriau amgylcheddol neu wella llesiant cymunedol yn annhebygol o lwyddo oni fyddwn yn mynd i'r afael hefyd ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau.**

## Sut gallwn helpu

Rydym wedi bod yn gweithio am ddegawd gyda llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus a Llywodraeth Cymru i ddarparu **tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol**, sy'n helpu i adnabod ymatebion polisi effeithiol a datrysiadau ymarferol i anghydraddoldebau yng Nghymru.

Mae ein gwaith yn y gorffennol yn cynnwys:

- **Deall a mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru**
  Rydym wedi cynnal ystod o astudiaethau sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall llywodraeth genedlaethol a lleol ei wneud i leihau dyled a chefnogi dyledwyr agored i niwed: torri'r cylch o ddiweithdra a swyddi ansefydlog, â chyflog isel; a mynd i'r afael â thlodi gwledig.
- **Hyrwyddo cydraddoldeb hil ac ethnig**
  Rydym wedi cyfrannu adolygiadau o dystiolaeth a hysbysodd Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru ac rydym wedi dadansoddi ffyrdd o gynyddu cyfranogiad grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn penodiadau cyhoeddus llywodraeth leol.
- **Hyrwyddo cydraddoldeb rhyw**
  Rydym wedi casglu a chyflwyno ystod eang o dystiolaeth ac arbenigedd rhyngwladol i lywodraeth leol a chenedlaethol ar gyllidebu ar sail rhyw a ffyrdd eraill o osod cydraddoldeb wrth galon prosesau gwneud penderfyniadau.

- **Mynd i'r afael â digartrefedd**
  Rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr rhyngwladol blaenllaw i nodi ffyrdd o atal digartrefedd ymysg pobl ifanc a gwella'r ddarpariaeth i'r rhai sy'n gadael gofal sy'n wynebu risg benodol o ddod yn ddigartref.

## Ein heffaith

### Cydraddoldeb hil

Fe wnaethom gynnal chwe adolygiad o dystiolaeth a hysbysodd Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn dadansoddi ffyrdd o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hil mewn:

- **Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth**
- **Iechyd a gofal cymdeithasol**
- **Cyflogaeth ac incwm**
- **Addysg**
- **Tai a llety**
- **Troseddau a chyfiawnder**

Roedd ein hadroddiad ar Weithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil yn nodi'r camau ymarferol sydd eu hangen i gyflawni ei uchelgeisiau.

> **Roedd y Gwaith hwn yn "hanfodol i ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil".**
>
> Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

### Tlodi ac allgáu cymdeithasol

Comisiynwyd CPCC gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol ar dlodi ac allgáu cymdeithasol a fyddai'n hysbysu eu Strategaeth Tlodi Plant diwygiedig. Drwy weithio gyda chydweithwyr yn y Sefydliad Polisïau Newydd, Canolfan Dadansoddi Allgau Cymdeithasol LSE, a chynghorwyr arbenigol yng Nghymru, fe wnaethom gynhyrchu cyfanswm o 18 adroddiad a oedd yn edrych ar faterion amrywiol sy'n gysylltiedig â thlodi ac allgáu cymdeithasol, gan gynnwys:

- Adolygiad o strategaethau rhyngwladol ar dlodi ac allgáu cymdeithasol, gyda rhestr wirio o'r hyn sy'n llunio strategaeth gwrthdlodi effeithiol.
- Adolygiadau o dystiolaeth ryngwladol ar effeithiolrwydd polisïau a rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Dau adroddiad ar dlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru, gan dynnu ar ddata ansoddol ar dueddiadau, yn ogystal â thystiolaeth profiad byw ansoddol.
- Adroddiad sy'n amlinellu canlyniadau pedwar gweithdy a gynhaliwyd gan CPCC ledled Cymru gyda phobl â phrofiad byw uniongyrchol o dlodi ac allgáu cymdeithasol.
- Adroddiad trosolwg sy'n dod â swm sylweddol o dystiolaeth ynghyd a gynhyrchwyd ar gyfer prosiect i fframio a hysbysu 'Ffordd Ymlaen' ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yng Nghymru.





## Lle nesaf?

### Mynd i’r afael â stigma tlodi

Mae tystiolaeth o brofiad byw yn amlygu dro ar ôl tro dimensiwn iechyd meddwl tlodi, ac yn benodol rôl y stigma wrth gysylltu tlodi ac iechyd meddwl gwael. Mae stigma tlodi yn bwysig oherwydd ei fod yn fath o ddioddefaint yn ei rinwedd ei hun, ac oherwydd ei fod yn effeithio ar allu neu barodrwydd pobl i geisio cymorth neu dderbyn cymorth ac i gymryd rhan yn eu cymunedau.

Mae CPCC, yr Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn gweithio gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr, academyddion ac arbenigwyr profiad byw i archwilio sut y gall tystiolaeth gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol i ddeall yn well:

- Beth yw stigma tlodi a sut mae’n effeithio ar bobl a chymunedau?
- Sut a lle mae’n cael ei gynhyrchu?
- Beth sy’n gweithio i fynd i’r afael â hyn?

**Gweithio gyda ni**

Am wybodaeth bellach ac i drafod sut y gallwn gynorthwyo eich tîm, cysylltwch ag **Amanda Hill-Dixon: amanda.hill-dixon@wcpp.org.uk**

# Yr Amgylchedd a Sero Net

**Dr Helen Tilley**
**Uwch-gymrawd Ymchwil**
helen.tilley@wcpp.org.uk



## Yr her

Mae'n hollbwysig ein bod yn cyflawni **trawsnewidiad cyfiawn i Sero Net** a'n bod yn **buddsoddi yn y sgiliau a'r technolegau** sy'n galluogi i Gymru elwa o **swyddi newydd mewn diwydiannau glanach, gwyrddach.**

Mae ein gwaith ar ddatgarboneiddio a thrawsnewidiad cyfiawn wedi cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i gyflawni hyn gan gynnwys 'Cynllun Gweithredu Cymru Gryfach, Decach, Gwyrddach: Sgiliau Sero Net'.

Mae'r dystiolaeth yn dangos, er mwyn cyflawni sero net, y bydd angen i lywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus ddod at ei gilydd i chwilio am ddatrysiadau ymarferol. Bydd angen iddynt **bennu blaenoriaethau clir** ac wynebu rhai **cyfaddawdau** anodd. Mae hyn yn ei dro yn galw am dystiolaeth ddibynadwy ynghylch pa ddulliau fydd yn gweithio i gyflawni sero net a sut mae'r angen i **fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn croestorri â heriau polisi eraill.**



## Sut gallwn helpu

Rydym yn **cefnogi llunwyr polisi ar lefel genedlaethol a lleol** i ymateb i'r her drwy ddarparu **tystiolaeth ac arbenigedd awdurdodol, annibynnol iddynt** a all helpu i nodi ymatebion polisi effeithiol a datrysiadau ymarferol.

Mae ein gwaith diweddar a pharhaus yn cynnwys:

- **Dulliau gweithredu rhyngwladol at drawsnewidiad cyfiawn**
  Fe wnaethom gynnal adolygiad tystiolaeth o ddulliau gweithredu rhyngwladol at drawsnewidiad cyfiawn i gefnogi galwad gan Lywodraeth Cymru am dystiolaeth ar beth mae 'trawsnewidiad cyfiawn' yn ei olygu a sut i'w gyflawni yng Nghymru.
- **Tuag at drawsnewidiad cyfiawn yng Nghymru**
  Rydym wedi cynhyrchu adolygiad tystiolaeth a fframwaith ar gyfer gweithredu sy'n nodi camau ymarferol y gall Cymru eu cymryd a phwysleisio pwysigrwydd gwrando ar gymunedau ac ymateb iddynt.
- **Sgiliau sero net**
  Cawsom ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi eu Cynllun Gweithredu Cymru Gryfach, Decach, Gwyrddach: Sgiliau sero net. Rydym wedi cynhyrchu trosolwg o'r dystiolaeth ar anghenion sgiliau y dyfodol yn y sectorau allyriadau ac rydym wedi darparu cyfres o argymhellion ar gyfer sectorau unigol.



- **Sgiliau ar gyfer trawsnewidiad cyfiawn**
  Fe wnaethom edrych ar y trawsnewidiad blaenorol er mwyn nodi'r sgiliau y bydd eu hangen ar y gweithlu yng Nghymru wrth i ni ddatgarboneiddio, a sut y gall y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddatblygu sgiliau gefnogi gweithwyr mewn diwydiannau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan sero net.
- **Datgarboneiddio ac economi Cymru**
  Fe wnaethom ystyried llwybrau at ddatgarboneiddio rhwydweithiau ynni, defnyddio tir a thwf economaidd a chynnull cynhadledd fawr gyda llunwyr polisi, ymarferwyr a sylwebwyr.
- **Modelu ynni'r stoc dai: tuag at fodel i Gymru**
  Roedd ein hadroddiad ar fodelu carbon yn y sector tai yn edrych ar yr offer a'r modelau y gellir eu defnyddio i ddadansoddi tueddiadau ac opsiynau polisi ar gyfer datgarboneiddio'r sector tai ac adeiladu.
- **Sero net 2035**
  Wedi'i gadeirio gan Jane Davidson, mae Grŵp Her Sero Net 2035 yn archwilio'r llwybrau posibl at sero net erbyn 2035 yn y sectorau bwyd, ynni, trafnidiaeth, tai ac addysg. Rydym yn cynnal yr ysgrifenyddiaeth ac yn darparu ymchwil a dadansoddiad.

## Ein heffaith

### Pontio cyfiawn

Yn 2021, fe wnaethom gynhyrchu adolygiad o dystiolaeth a fframwaith ar gyfer gweithredu a nododd y camau y gallai Cymru eu cymryd gan ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyflawni trawsnewidiad cyfiawn a phwysleisio pwysigrwydd gwrando ac ymateb i safbwyntiau'r cyhoedd a sefydliadau rhanddeiliaid ar gyfer cyflawni'r trawsnewidiad. Dylanwadodd hyn ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru i gyflawni trawsnewidiad cyfiawn, fel yr amlinellwyd yn *Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2* yn 2021. Dywedodd uwch swyddog Llywodraeth Cymru bod eu 'hagwedd at brofi'r defnydd o lywodraethiant bresennol a ddarparwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer trawsnewidiadau cyfiawn wedi'i dylanwadu gan waith blaenorol CPCC yn y maes hwn.'

### Sgiliau Sero Net

Yn 2022, fe wnaethom ymgymryd â gwaith ymchwil ar *Sgiliau ar gyfer Trawsnewidiad Cyfiawn* a oedd yn archwilio gwersi o drawsnewidiadau strwythurol blaenorol a sut y gall sefydliadau sgiliau gefnogi cam trawsnewid i economi wedi'i datgarboneiddio. Arweiniodd hyn at gais i gefnogi datblygiad *Cynllun Gweithredu Cymru Gryfach, Decach, Gwyrddach*:

*Sgiliau Sero Net* gydag adolygiad cyflym o dystiolaeth o'r anghenion sgiliau yn y dyfodol ar gyfer y sectorau allyriadau, a bwydodd hyn i'r argymhellion yn y Cynllun.

Mae'r rhain yn cynnwys ein cydnabyddiaeth o'r angen am wybodaeth well am y farchnad lafur er mwyn gwella dealltwriaeth o anghenion sgiliau, a llawer o'n hargymhellion ar gyfer sectorau penodol, gan gynnwys ymgorffori sgiliau sero net a llythrennedd carbon mewn cymwysterau amaethyddol, a sicrhau bod eglurder ar dechnolegau ac opsiynau newydd i ddiwydiant ddatgarboneiddio.

### Grŵp Her Sero Net 2035

Rydym wedi ein comisiynu gan Weinidogion i ddarparu tystiolaeth i gefnogi gwaith Grŵp Her Sero Net 2035 a chynnal ei ysgrifenyddiaeth. Dechreuodd y Grŵp Her ar ei waith ym mis Ionawr 2023, o dan gadeiryddiaeth y cyn-weinidog Jane Davidson, a bydd yn para tan yr haf 2024. Bydd ei waith yn cwmpasu pum maes her - bwyd, ynni, trafnidiaeth, tai ac addysg a sgiliau.

> **Mae'n bleser gennym groesawu'r dystiolaeth annibynnol a ddarparwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i'n helpu i ddatblygu camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ein her fel Grŵp, sydd â llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth ei galon, yw nodi llwybrau i gyflymu'r cynnydd tuag at sero net yng Nghymru erbyn 2035, gan sicrhau pontio teg sy'n gadarnhaol o ran natur ac sy'n diogelu cymunedau. Mae'n hanfodol bod y llwybrau hyn yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ac mae gwaith annibynnol Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r grŵp yn gyfraniad hollbwysig oherwydd hyn.'**
>
> Jane Davidson, Cadeirydd, Grŵp Her Sero Net Cymru 2035



**Gweithio gyda ni**

Am wybodaeth bellach ac i drafod sut y gallwn gynorthwyo eich tîm, cysylltwch â **Dr Helen Tilley: helen.tilley@wcpp.org.uk**

# Llesiant Cymunedol

**Dr Hannah Durrant**
**Uwch-gymrawd Ymchwil**
hannah.durrant@
wcpp.org.uk




## Yr her

Mae gwella llesiant drwy hyrwyddo a chefnogi cymunedau cysylltiedig yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Cyflwynodd y pandemig Covid-19 heriau sylweddol o ran cysylltiad cymunedol; gan ddwysáu **anghydraddoldebau unigrwydd, ynysigrwydd ac iechyd meddwl gwael** a'r goblygiadau iechyd cyhoeddus a llesiant cysylltiedig.  Fodd bynnag, dangosodd hefyd **ystwythder ac arloesedd cymunedau** wrth geisio mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol, lliniaru tlodi, gwella lleoedd a gwella llesiant.

Mae llunwyr polisi a gwasanaethau cyhoeddus o dan bwysau difrifol i gyflawni anghenion llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl ledled Cymru gydag adnoddau sy'n gynyddol gyfyngedig. Yr her yw **sut y gellir cefnogi, cynnal a gwella cymuned er budd pawb**. Mae hyn yn galw am dystiolaeth ddibynadwy ar sut i wella llesiant drwy **weithredu cymunedol cydweithredol** a defnydd effeithiol o seilwaith ac adnoddau ffisegol a digidol cymunedol.

**Mae eithrio a gwahaniaeth rhyngbersonol yn esbonio anghydraddoldebau unigrwydd**



## Sut gallwn helpu

Rydym yn cefnogi **llywodraethau lleol, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol a Llywodraeth Cymru**, drwy ddarparu **tystiolaeth ac arbenigedd awdurdodol, annibynnol** a all helpu i nodi ymatebion polisi effeithiol a datrysiadau ymarferol.

Mae ein gwaith diweddar a pharhaus yn cynnwys:

- **Anghydraddoldeb unigrwydd**
  Fe wnaethom gynnal dadansoddiad 'Pwy sy'n unig yng Nghymru' gan ddefnyddio data Arolwg Cenedlaethol Cymru, a chynhyrchu adolygiad o dystiolaeth ryngwladol bwysig ar anghydraddoldebau unigrwydd  a nododd achosion rhyngbersonol a strwythurol gwahaniaethau unigrwydd.

- **Rôl cymunedau yn mynd i'r afael ag unigrwydd a gwella llesiant**
  Fe wnaethom gynnal ymchwil ar rôl cymunedau yn lliniaru unigrwydd, a chynllunio gweithdy ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w cynghori ar yr hyn y gallan nhw ei wneud i gefnogi llesiant cymunedol.

- **Gwirfoddoli a Llesiant**
  Buom yn gweithio gyda Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i archwilio cyfraniad gwirfoddoli i lesiant unigol a chymunedol yn ystod y pandemig. Cyfrannodd y gwaith ymchwil hwn at strategaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ar gyfer adferiad wedi'i arwain gan lesiant yng Nghymru.

- **Cydweithrediad traws-sectoraidd i gefnogi gweithredu a lles cymunedol**
  Rydym yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar yng Nghymru i gynhyrchu adolygiad o dystiolaeth ar rôl cydweithrediad traws-sectoraidd wrth gefnogi gweithredu a lles cymunedol.

- **Rôl technoleg ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd a gwella lles**
  Fe wnaethom gynhyrchu adolygiad ar beth sy'n gweithio gydag ymyriadau unigrwydd sy'n gwneud defnydd o dechnoleg ac rydym wedi archwilio'r buddiannau a'r heriau i sefydliadau cymunedol o gael dulliau wedi'u cyfuno (ar-lein ac wyneb yn wyneb) o ddarparu gwasanaethau. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni archwilio'r defnydd o dechnoleg i helpu i ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol a mynd i'r afael ag unigrwydd ymhlith oedolion hŷn yn ystod y pandemig.

## Ein heffaith

### Rôl cymunedau yn gwella llesiant

Er mwyn cefnogi grŵp arbenigol Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd, fe wnaethom archwilio rôl camau gweithredu wedi'u harwain gan y gymuned ar gyfer gwella cyfranogiad cymdeithasol, ac arwyddocâd gwaith partneriaeth sy'n gweithio ar draws llywodraeth leol a sefydliadau cymunedol i gynnal a gwella'r ddarpariaeth hon. Hysbysodd y gwaith ymchwil hwn y gwaith o ddylunio Cronfa Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Fe wnaethom gynnal cynhadledd ddeuddydd fawr ar fynd i'r afael ag unigrwydd yng Nghymru. Fe wnaeth cyfranogwyr o lywodraeth leol a chenedlaethol, gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector gyd-gynhyrchu cyfres o argymhellion i'w gweithredu a rhannu sut y byddent yn gweithredu'r hyn yr oeddynt wedi'i ddysgu yn eu polisïau a'u hymarfer.

Bydd ein gwaith presennol gyda'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar yn cefnogi gweithredoedd ymarferol y gellir eu cyflawni mewn ardaloedd lleol i greu partneriaethau effeithiol.

### Gwirfoddoli a llesiant

Cynhaliwyd ein hadolygiad o dystiolaeth ar y berthynas rhwng gwirfoddoli a llesiant unigol a chymunedol mewn partneriaeth â CGGC a CLlLC, a chafodd ei ariannu gan Grant Adfer Gwirfoddoli yn Sgil y Coronafeirws, Llywodraeth Cymru. Roedd yr argymhellion yn cefnogi gwaith is-grŵp adfer yn sgil Covid Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, i hysbysu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector gwirfoddoli a gwirfoddoli.

> **Mae'r gwaith ymchwil hwn yn dangos bod gwirfoddoli'n darparu ymdeimlad gwirioneddol o bwrpas i unigolion a chymunedau fel ei gilydd, ac mae'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n cyfranogi i greu etifeddiaeth gadarnhaol yn eu cymuned.**
>
> Y Cynghorydd Andrew Morgan,
> Arweinydd CGGC



### Defnydd oedolion hŷn o dechnoleg i fynd i'r afael ag unigrwydd

Cawsom ein comisiynu gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r defnydd o dechnoleg i fynd i'r afael ag unigrwydd ymhlith oedolion hŷn yn ystod y pandemig. Amlygodd yr ymchwil wahaniaethau sylweddol mewn gallu digidol a diflastod o dechnoleg. O ystyried goblygiadau unigrwydd ar iechyd a llesiant, mae angen cymorth i alluogi oedolion hŷn i gael mynediad hyderus at dechnoleg fel un ffordd o ddatblygu a chynnal cysylltiad cymdeithasol.

> **Bydd y gwaith ymchwil hwn yn bwydo i mewn i brosesau llunio polisïau yn y dyfodol ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru.**
>
> Swyddogion Llywodraeth Cymru, Emma Spear (Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a Penny Hall (Arweinydd Polisi)



### Gweithio gyda ni

Am wybodaeth bellach ac i drafod sut y gallwn gynorthwyo eich tîm, cysylltwch â **Dr Hannah Durrant: hannah.durrant@wcpp.org.uk**